**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Perfformiad Craffu - Addysg

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Iau, 15 Rhagfyr 2022 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd L R Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| A Davis | S M Jones | S Joy |
| S E Keeton | J D McGettrick | F D O'Brien |
| A J O'Connor | | |

| **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** | **Aelodau Cyfetholedig(wyr)** |
|---|---|---|
| Elizabeth Lee | | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Sarah Hughes | Rheolwr Tîm Strategaeth Addysg |
| Karin Jenkins | Pennaeth Uned Gerdd Abertawe |
| Michelle Roberts | Swyddog Craffu |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): A M Day a/ac B Hopkins
Aelodau Cyfetholedig(wyr): E Allender

---

## 21 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol

Dim

## 22 Gwahardd Pleidleisiau Chwip a Datgan Chwipiau'r Pleidiau

Dim

## 23 Cofnodion

Derbyniwyd cofnodion y cyfarfod ar 17 Tachwedd gan y Panel.

## 24 Llythyrau

Nodwyd y llythyr at Aelod y Cabinet.

25 **Cwestiynau gan y Cyhoedd**

Ni ofynnwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

26 **Perfformiad Addysg Blynyddol yn erbyn blaenoriaethau a nodwyd (COG) a chynnydd gydag argymhellion Arolwg Estyn (Sesiwn Holi ac Ateb Aelodau'r Cabinet)**

Diolchodd y panel i Sarah Hughes, Pennaeth yr Uned Gwella a Monitro am gyflwyno'r adroddiad a'r cynnydd diweddar o ran perfformiad Addysg yn erbyn y blaenoriaethau a nodwyd ac argymhellion Arolygiad Estyn. Trafodwyd y canlynol:

- Cefndir yr adroddiad
- Cynnydd ym mlwyddyn academaidd 2021-22 ar gyfer amcanion y Gyfarwyddiaeth Addysg
- Cynnydd yn ystod y flwyddyn academaidd hon gydag amcanion allweddol megis maniffesto disgyblion, darpariaeth prydau ysgol, porth llywodraethwyr a'r gyllideb/adnoddau
- Cynnydd yn erbyn y ddau argymhelliad a wnaed gan Arolygiad Estyn o Wasanaethau Addysg Llywodraeth Leol yn 2022.

Cododd y Panel y pwyntiau/cwestiynau canlynol mewn perthynas â chynnydd Arolygiad Estyn:

- Pwysleisiodd y panel bwysigrwydd y cynnig dysgu galwedigaethol ac roeddent yn teimlo bod hwn yn allweddol fel un o'r meysydd lle mae angen gwelliant. Gofynnwyd sut y mae lleisiau 'tawelach' disgyblion Ôl-16 yn cael eu clywed. Hefyd, os bydd rhywbeth sy'n wahanol i'r hyn a gynigir ar hyn o bryd yn dod o'r ymgynghoriad, a fyddant yn gallu addasu a chaniatáu hynny. Gofynnodd y panel a allai rhestr o rai o'r cyrsiau galwedigaethol sydd ar gael i fyfyrwyr Ôl-16 gael ei dosbarthu i'r panel.
- Gofynnodd y panel beth rydym yn ei wneud yn Abertawe i wella nifer y bobl sy'n defnyddio'r Gymraeg mewn addysg.

Bydd y drafodaeth, syniadau o'r sesiwn ac unrhyw argymhellion yn ffurfio rhan o'r llythyr a fydd yn cael ei anfon at Aelod y Cabinet.

27 **Darpariaeth gerdd ar gyfer/yn ysgolion Abertawe**

Diolchodd y panel i Karin Jenkins (Pennaeth Cerdd Abertawe) am ddarparu adroddiad ac am fod yn bresennol yng nghyfarfod y panel i roi sesiwn friffio ar Gerdd Abertawe. Amlinellodd:

- Cefndir y gwasanaeth a chyfrifoldebau craidd
- Cytundeb Lefel Gwasanaeth Cerdd Abertawe
- Gwasanaeth Cerddoriaeth Cenedlaethol; ac
- Amlinellodd fanteision model CLG newydd y Gwasanaeth Cerddoriaeth a'r heriau posib a geir yn sgîl y model hwn
- Amlinellodd fanteision y Cynllun Cerddoriaeth Cenedlaethol a'r heriau posib a geir yn sgîl hwn

Derbyniodd y Cadeirydd hefyd nifer o gwestiynau gan aelod o'r cyhoedd a bydd y rhain yn llunio rhan o lythyr y Cynullyddion at Aelod y Cabinet fel y gellir derbyn ymateb llawn yn dilyn y cyfarfod.

Bydd y drafodaeth, syniadau o'r sesiwn ac unrhyw argymhellion yn ffurfio rhan o'r llythyr a fydd yn cael ei anfon at Aelod y Cabinet.

28 **Rhaglen Waith 2022-2023**

Nododd y panel y rhaglen waith.

Daeth y cyfarfod i ben am 5.30 pm

**Cadeirydd**